



Dirprwyo swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad

1. Yn unol â darpariaethau paragraff 7 o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, dirprwir drwy hyn swyddogaethau Comisiwn y Cynulliad, gan gynnwys ei gyfrifoldeb am reoli staff, i'r Prif Weithredwr a'r Clerc, yn ddarostyngedig i'r eithriadau a'r amodau a ganlyn.
2. Ni ddirprwir y materion canlynol:
 - a) penodiad, telerau ac amodau a thâl y Prif Weithredwr a'r Clerc, cynghorwyr annibynnol anweithredol y Comisiwn, ac aelodau o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad; nac
 - b) awdurdodi gwariant o dan baragraff o 6 Atodlen 2 i Ddeddf 2006 (sef darparu cymorth ariannol i'r Comisiwn Etholiadol).
3. Rhaid i'r Prif Weithredwr a'r Clerc ymgynghori â'r Comisiwn cyn:
 - a) penodi ar gyfer swyddi ar lefel Cyfarwyddwyr;
 - b) newid tâl a thelerau ac amodau'r staff sydd yn y swyddi hynny;
 - c) creu swyddi Cyfarwyddwyr newydd neu ddiddymu swyddi Cyfarwyddwyr sydd eisoes yn bodoli;
 - d) awdurdodi gwariant ar brosiectau neu cytundebau sy'n werth mwy na £5 miliwn; ac
 - e) awdurdodi gwariant ar faterion y gellid eu hystyried yn newydd neu'n ddadleuol.

4. Nid yw'r ffaith bod y swyddogaethau uchod wedi'u dirprwyo yn rhwystro'r Comisiwn rhag ymgymryd â'r swyddogaethau dirprwyedig hynny.

Llofnodwyd ar ran y Comisiwn gan y Llywydd

.....

16 Mehefin 2016